# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mawrth, 22 Hydref 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.Stewart** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd D.Price** |
| **Cynghorwyr**: | J.Harvey a/ac W.F.Griffiths |
| **Parc Cenedlaethol Cynrychiolwyr:** | D.Clements |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | W.Bramble, K.Jones, G.Jones, C.Griffiths, K.Tillman, S.Aldred-Jones, M.Wade, A.Williams, S.Morris a/ac C.Plowman |

---

## 1. CROESO A CHYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Datganodd yr Aelod canlynol gysylltiad personol ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. J Harvey | Parthed Eitem 9 ar yr agenda - mae wedi gweithio gyda rhai o'r unigolion y cynigir eu penodi yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn y gorffennol. |

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2024 fel cofnod cywir.

4. **<u>CYNNYDD CYFFREDINOL CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU 2023/24</u>**

Derbyniodd y pwyllgor adroddiad ynghylch Proses Gyffredinol Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru 2023/24.

Esboniodd Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru ddiben darparu'r adroddiad Cynnydd Cyffredinol. Roedd yn tynnu sylw at y ffaith y cyflwynwyd y Ffurflen Flynyddol mewn cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor (12 Medi 2024); ac felly nid oedd wedi'i chynnwys yn y diweddariad Cynnydd Cyffredinol hwn.

Cadarnhawyd y bydd y blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2025/26 yn cael eu cyflwyno i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 3 Rhagfyr 2024.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi a chymeradwyo'r Cynnydd Cyffredinol ar gyfer 2023/24.

5. **<u>SAFONAU'R GYMRAEG - DIWEDDARIAD AR GYDYMFFURFIO</u>**

Cynghorwyd aelodau ynghylch y mesurau a gymerwyd i adolygu a gweithredu'r Hysbysiad Cydymffurfio i ddangos derbyn Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

Nodwyd y derbyniwyd yr Hysbysiad Cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 24 Ebrill 2024 ac roedd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru chwe mis i roi'r mesurau ar waith.

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn cynnwys tabl a oedd yn arddangos y Safonau Cydymffurfio yr oedd angen i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru eu bodloni, yn ogystal â'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r safonau hynny.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi gofynion yr Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg, a chadarnhau'r monitro parhaus a'r adnoddau angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â Safonau'r Gymraeg.

6. **BLAENRAGLEN WAITH**

Cynghorwyd y pwyllgor y byddai ychydig o newidiadau i'r amserlen sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol; byddai'r manylion yn cael eu trafod yn y gweithdy ar 22 Hydref 2024, a rhoddir yr wybodaeth ddiweddaraf i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru ym mis Ionawr 2025. Nodwyd na fyddai'r newid yn yr amserlen yn effeithio ar y dyddiad cau gofynnol i swyddogion gyflwyno'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru.

Nododd Cadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru'r sylwadau a wnaed ynghylch amserlenni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan dderbyn na fyddai unrhyw effaith ar y dyddiad cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

7. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) o Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, penderfynwyd gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 12 ac 13 Adran 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

9. **BWRDD CYNGHORI'R SECTOR PREIFAT - PENODIADAU**

Derbyniodd aelodau adroddiad ynghylch recriwtio ymgynghorwyr ychwanegol er mwyn sefydlu Bwrdd Cynghori'r Sector Preifat

**PENDERFYNWYD:**

- Cynyddu nifer yr aelodau arfaethedig ar gyfer Bwrdd Cynghori'r Sector Preifat i'r niferoedd a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.
- Adolygu'r 14 mynegiad o ddiddordeb yn Atodiad C o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

- Penodi'r ymgynghorwyr a nodwyd dan Garfan 1 Atodiad D o’r adroddiad a ddosbarthwyd.
- Penodi'r ymgynghorwyr ychwanegol a nodwyd dan Garfan 1 Atodiad D o'r adroddiad a ddosbarthwyd, er mwyn cefnogi Bwrdd Cynghori'r Sector Preifat ar sail ar alwad.

**CADEIRYDD**